Byw er mwyn eraill

(caredigrwydd / gostyngeiddrwydd / helpu eraill)

Pymtheg oed oedd Martin pan ymunodd â'r fyddin Rufeinig. Roedd yn gryf, yn heini ac yn dal iawn o'i oed. Ar ôl iddo ymuno â'r fyddin cafodd ei anfon gyda'r milwyr eraill i bentref nid nepell o'i gartref yn yr Eidal. Ar ôl i'r meddyg archwilio pob un o'r milwyr fesul un y cam nesaf oedd cael eu holi gan un o benaethiaid y fyddin. Roedd pob un o'r milwyr wedi dod â llythyr o gymeradwyaeth gan berson oedd yn eu hadnabod yn dda.

Cyflwynodd Martin ei lythyr i'r swyddog. Darllenodd ef y llythyr. "Mae hwn yn llythyr rhagorol; wedi cael ei sgwennu gan eich tad, rwy'n gweld!" meddai hwnnw.

"Ie, syr," meddai Martin.

"Mi wnes i gyfarfod â'ch tad unwaith, ym Macedonia os cofiaf yn iawn. Roedd o'n filwr dewr iawn. Rwy'n siŵr y byddwch chithau yn dilyn yn ôl troed eich tad. Da iawn wir," meddai'r swyddog.

Cymerodd Martin y llw y byddai'n deyrngar i'r Ymerodraeth Rufeinig a chafodd gyflog pedwar mis cyn iddo ddechrau ar ei waith. Ond doedd Martin ddim eisiau bod yn filwr. Yn ei gartref, roedd teulu Martin yn addoli'r duw Mawrth, duw rhyfel ac o gwmpas y tŷ a'r gerddi roedd cofgolofn o'r duw Mawrth ymhob man. Roedd tad Martin yn awyddus iawn i'w fab fod yn filwr. Ond roedd gan Martin syniadau eraill.

Pan oedd yn fachgen, oddeutu deuddeg oed, roedd wedi clywed am grefydd "newydd" – crefydd wahanol iawn oedd hon. Roedd y bobl yn dilyn dyn o'r enw Iesu. Roedd dilynwyr Iesu yn cael eu galw'n Gristnogion. Ym marn y Cristnogion, ni ddylai neb fynd i ryfela a lladd. Roedd Martin yntau'n credu 'run modd. Dymuniad Martin oedd dod yn Gristion er mwyn iddo gael helpu pobl, ond roedd yn deyrngar i'w dad. A dyna pam yr ymunodd Martin â'r fyddin Rufeinig.

Yn wir, ar ôl ychydig fisoedd yn y fyddin roedd Martin yn ymddangos yn filwr dewr iawn. Roedd y swyddogion yn gallu ymddiried ynddo ac roedd gan y milwyr eraill feddwl y byd ohono. Cyn pen dim cafodd ei ddyrchafu'n swyddog. Gwisgai glogyn coch dros ei wisg a chariai gleddyf wrth ei ochr. Marchogai ar gefn ceffyl gwyn.

Pan oedd Martin yn ddeunaw oed cafodd ei anfon gydai'i filwyr i'r gogledd. Doedd yr un o'r milwyr yn hapus. Roedd y gaeafau yn y gogledd yn gallu bod yn oer a diflas. Mor wahanol oedd hyn i dywydd cynnes o gwmpas Môr y Canoldir. Ond roedd gan Martin glogyn i'w gadw'n gynnes. Un noson oer roedd Martin yn marchogaeth drwy un o'r trefi. Yn dilyn roedd ei filwyr. Sylwodd Martin ar rywun yn begera ar ochr y stryd. Yn wir roedd nifer mawr o bobl yn begera ond roedd y dyn arbennig hwn wedi tynnu sylw Martin. Dyna lle roedd e yn eistedd yn ei ddillad carpiog ac yn crynu o oerfel.

Daeth Martin i lawr oddi ar gefn ei geffyl. Tynnodd ei gleddyf o'r wain a thorrodd ei glogyn yn ei hanner. Rhoddodd un hanner i'r dyn. Dechreuodd y milwyr chwerthin am ei ben. Tybed oedd y swyddog wedi mynd yn wallgo! Meddai Martin, "Roedd y dyn yna'n crynu. Y peth lleiaf fedrwn i ei wneud oedd rhannu."

Ar ôl i'r rhyfel ddirwyn i ben penderfynodd Martin ei fod am fynd yn fynach ac ymuno â'r fynachlog. Roedd y mynaich yn awyddus iawn iddo fod yn esgob ar y fynachlog. Cytunodd yntau'n llawen. Cafodd gynnig byw mewn palas ond gwrthododd. Gwell oedd ganddo fyw mewn cwt pren fel y gweddill o'r mynaich.

Adnod: "Paid â gwneud drwg, ac ni chaiff drwg afael ynot; cilia oddi wrth anghyfiawnder, ac fe dry yntau oddi wrthyt ti." Eccelesiasticus 7:1

Gweddi: Diolch i Ti, O Dduw, am bobl ddewr ar hyd yr oesoedd. Helpa ni i wneud yr hyn sy'n iawn yn dy olwg di bob amser. Amen.

Trafod:

- Pa mor bwysig ydi (a) gwrando ar ddymuniadau ein rhieni neu (b) ddilyn ein ffyrdd ein hunain?
- Sut y byddech chi'n disgrifio dewrder Martin?